



7 Camau Gorfodi

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn rhagweithiol i aildddefnyddio eiddo gwag. Dymunwn weithio gyda pherchnogion eiddo gwag er budd y gymuned.

Pan gydnabyddir bod eiddo gwag yn anniogel, yn achosi niwsans neu wedi'i adael yn adfail, bydd swyddog yn ymweld â'r eiddo i bennu'r camau angenrheidiol. Lle y bo'n bosibl, bydd y swyddog yn ceisio gweithio gyda pherchnogion i ganfod yr ateb gorau er mwyn aildddefnyddio eiddo gwag eto.

Camau gorfodi gan y Cyngor fydd y dewis olaf.

Gall y Cyngor gymryd camau gorfodi dan y pwerau canlynol er mwyn aildddefnyddio eiddo a'i wneud yn ddiogel:

- Adran 80, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac Adran 76, Deddf Adeiladu 1984 i fynd i'r afael ag achosion o niwsans;
- Adran 4, Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949 i fynd i'r afael â phlâu o lygod mawr a llygod;
- Adran 29, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ac Adran 79, Deddf Adeiladu 1984 i fynd i'r afael ag eiddo anniogel neu adfeiliedig;
- Adran 215, Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990 i fynd i'r afael ag Eiddo hyll;
- Adran 77 a 78, Deddf Adeiladu 1984 i fynd i'r afael ag eiddo perygluss;
- System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai yn Neddf Tai 2004 i wella amodau tai;
- Prynu gorfodol o dan Adran 17 Deddf Tai 1985

Beth yw'r Cynllun Gwerthu Gorfodol?

Mae'r Cynllun Gwerthu Gorfodol yn broses a ddefnyddir gan y Cyngor i werthu eiddo preifat. Fe'i defnyddir fel dull o werthu eiddo gwag hirdymor i berchennog newydd, dan amgylchiadau lle y mae'r perchennog presennol naill ai'n amharod i ddelio â'r tŷ a'i broblemau cysylltiedig neu'n methu â gwneud hynny.

Bydd angen cynnal asesiad cychwynnol er mwyn ystyried pa eiddo sy'n addas i'w cynnwys yn rhan o'r Cynllun Gwerthu Gorfodol.

Dylai defnyddio'r Cynllun Gwerthu Gorfodol fod y dewis olaf. Disgwylir bod pob cam anffurfiol a ffurfiol wedi'i gymryd a'i gynnwys gan y Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r eiddo gwag a'i broblemau cysylltiedig.

www.srs.wales/en/Housing/Empty-Homes.aspx

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Eleri Nicholas, Swyddog Cartrefi Gwag a Benthyciadau

Ffôn: 01446 704721

housingloans@valeofglamorgan.gov.uk

- Eleri Nicholas
Swyddog Cartrefi Gwag a Benthyciadau
Adfywio a Chynllunio
Cyngor Bro Morgannwg
Llawr Cyntaf, Swyddfeydd y Dociau
Heol yr Isffordd, y Barri
CF63 4RT